**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**CHWEFROR 28AIN 2024 AM 7:30 Y.H**
**CYNHALIWYD YNG NGWYTHERIN**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**
**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)
**1.2** Presennol: Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), Mark Davies (MD), Sara Thomas (ST), Gwydion Jones (GJ), Euros Williams (EUW), Austin Roberts (AR) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)
**1.3** Ymddiheuriadau: Myrddin Davies (MGD), Einir Williams (EW)

Croesawodd CR hefyd aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod oedd wedi gofyn i gael siarad o flaen llaw yn y cyfarfod - Julia Parry.

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**
Dim datganiad.

**3 COFNODION IONAWR 31AIN 2024 I'W GWIRIO**
Cynigwyd yn gywir gan JR ac eilwyd gan MD.

**4 MATERION YN CODI**
**4.1** CWG wedi creu holiadur ac wedi ei rannu gyda'r cynghorwyr ar e-bost. Bydd angen trafodaeth bellach ynglŷn a'i gynnwys a'r defnydd ohono yn y pwyllgor nesaf.
[GJ yn cyrraedd]

**4.2** Arwyddion VAS: Bydd angen gofyn i Richard Roberts i yrru mapiau o'r lleoliadau diweddaraf. Roedd pawb yn awyddus i symud ymlaen gyda'u harchebu ond yn bryderus fod y costau yn uwch na'r £12,000 yr amcangyfrifwyd:

| | Cost y Sein | Cost Gosod | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Safle 1 | £ 4,065.90 | £ 2,913.18 | £ 6,979.08 |
| Safle 2 | £ 4,065.90 | £ 4,889.71 | £ 8,955.61 |
| | | | £ 15,934.69 |

Dywedodd DR fod y gyllideb wedi ei gosod a bod y gwariant i fod yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac felly bydd angen egluro'r rheswm dros y gwahaniaeth ar y cyfrifon. Mae cais am arian gan Gronfa Clocaenog wedi mynd i mewn ond ni fydd y cyngor yn gwybod os yw yn llwyddiannus hyd nes fis Ebrill. Awgrymodd ST y dylid archebu'r ddau arwydd gan roi'r un yn safle 1 i fyny'r flwyddyn hon a gadael y llall tan y flwyddyn nesaf os nad yw'r cais grant yn llwyddiannus. Roedd pawb yn cytuno. Mae Richard Roberts wedi gofyn am archeb prynu cyn y gellir symud ymlaen gydag archebu'r arwyddion.

**4.3** Diffibrilydd Ty'n Terfyn - Mae CWG wedi siarad gyda Kim Ty'n Terfyn ac nid ydynt eisiau iddo gael ei ddefnyddio gan aelodau o'r cyhoedd ac felly ddim eisiau ei hyrwyddo nag ei osod ar y *Circuit*.

**4.4** Cwrs Cymorth Cyntaf - Mae CWG wedi trafod y cwrs cymorth cyntaf gyda Tomos Hughes ac mae'n hapus iawn i'w gynnal ond byddai'n well ganddo gynnal un noson a hynny o ddiwedd Ebrill ymlaen pan fydd y cyfnod wyna wedi tawelu.

**4.5** Mae DR wedi mynychu cyfarfod ar-lein "Gwylio Cyflymder Cymunedol". Mae angen i CWG yrru'r manylion ymlaen i bawb. Adroddodd DR bod angen 3 gwirfoddolwr ar yr un pryd (1 i gymryd rhif y car, un i gymryd y cyflymder a'r 3ydd i gofnodi) a bod angen prynu gwn cyflymder

achredadwy sy'n costio £200. Maent yn fodlon rhoi'r hyfforddiant a siacedi *hi-vis* am ddim ond byddai'n rhaid i'r Cyngor Cymuned ysgwyddo'r gost o dalu am y gwn cyflymder.
[AR  yn cyrraedd].

**4.6** Grant Clocaenog - CWG wedi derbyn cais yn gofyn am fwy o wybodaeth a dogfennau. Bydd CR ac EW yn cynorthwyo i ateb y cwestiynau.

**4.7** Gwaith ar lwybr Hafodunos a mynwent Llangernyw wedi ei gwblhau gan Kevin Roberts ac mae wedi gyrru lluniau o'r gwaith i ddangos i bawb. Roedd pawb yn falch iawn o'r gwaith taclus dros ben a gyflawnwyd ganddo.

**5 CEISIADAU CYNLLUNIO**
**5.1** Cais Rhif 0/51426 Pont Syllty, Llangernyw LL22 8RL
Pawb yn cytuno gyda dim sylwadau.

**5.2** Cais Rhif 0/51462 Pont Syllty, Llangernyw LL22 8RL
Pawb yn cytuno gyda dim sylwadau.

**5.3** Cais Rhif 0/51459 Petryal, Llangernyw LL22 8RR
Pawb yn  mynegi eu bod yn siomedig ei fod yn ôl-weithredol.

**6 MATERION CYNGOR**
**6.1** Aelod o'r cyhoedd yn ymuno ac yn dymuno siarad - Julia Parry.
Roedd wedi cael biliau am hurio'r ganolfan ag heb eu talu ond bellach mewn safle i'w talu. Er hyn roedd yn anhapus gyda'r offer sain oedd ar gael a'u bod wedi gorfod talu £200 am un addas. Dywedodd  CR mai pwyllgor y ganolfan sydd yn gyfrifol am logi'r ganolfan a rhannwyd manylion cyswllt y pwyllgor gyda Julia Parry.

**6.2** Toriadau cyllidol Cyngor Conwy - Eglurodd AR fod cabinet y Cyngor Sir wedi gofyn i ysgolion wneud toriadau o 6%. Penderfynwyd i leihau i 5.5% yn dilyn derbyn y llythyr gan benaethiaid ysgolion y sir. Gofynnodd DR am Ffordd Dinerth sydd wedi ei werthu a ble mae'r arian wedi mynd. Eglurodd AR mai Llywodraeth Cymru oedd ei berchen ac mai rhentu oedd Cyngor Conwy ac maent wedi lleihau safleoedd o 23 i lawr i 3. Mynegodd ST ei phryder am y bygythiad i gyllideb i drafnidiaeth i ysgolion Cymraeg.

Dywedodd AR bod cyfarfod sir lawn yfory i osod y cyllid a bydd y dreth yn cynyddu. Eglurodd nad yw pobl fel arfer yn ymwybodol mai'r Cyngor Sir sydd yn ariannu'r gwasanaeth tân. Eleni maent wedi gofyn am 7% yn ychwanegol. Bydd y Cyngor Sir yn codi'r dreth 8.8% ac felly'r cyfanswm fydd 9.5% a ni fydd hyn y cynnydd mwyaf yng Nghymru eleni. Gofynnodd DR pam fod Sir Ddinbych yn cael fwy o gyllid ac eglurodd AR fod y fformiwla gan Lywodraeth Cymru i wneud gyda'r cynnydd yn y boblogaeth. Eglurodd hefyd bod 80% o wariant y Cyngor ar addysg a gwasanaethau cymdeithasol tra bod trethi yn cyfri am 30% o gyllid y sir a'r gweddill yn dod gan Lywodraeth Cymru.

**7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**
Bu AR o gwmpas gydag Emyr o'r adran Briffyrdd i weld unrhyw broblemau ar y ffyrdd. Roedd problemau dŵr yn Nghoetmor, Buarth Cerrig a Thy'n Bryn. Fe aethant hefyd i ymweld â ffordd Hendre Bach heibio Hendre Fawr a bydd Emyr yn edrych i mewn i'r broblem yno. Mae'r ffordd

heibio Bont Syllty i lawr i gael ei ail-wynebu ond maent yn aros am adroddiad draeniad tir. Mae AR wedi cysylltu gyda phrif beiriannydd y sir a doedd o ddim yn ymwybodol o hyn a heb ddod yn ôl at AR wedyn.

Mae nifer o dyllau yn y ffyrdd ac mae'r ffordd wrth Holland Arms am Rhandir wedi ei wella. Mae'r ffordd rhwng Holland Arms a'r cyffordd am Pen y Bryn, Trofarth i lawr i gael ei ail-wynebu ond ddim yn fuan iawn gan fod llefydd gwaeth.

Maent am osod concrid i lenwi'r ochr ar allt Ty'n Pistyll.

Mae'r bocs halen ar waelod allt Ty'n Pistyll wedi torri a gobeithir cael un newydd yn fuan.

Gofynnodd AR a oedd y Cynghorwyr yn fodlon i'r twmpathau cyflymder drwy Langernyw sydd wedi eu gwneud o frics i gael eu tynnu oddi-yno a gosod twmpathau allan o darmac yn lle. Roedd pawb yn gytûn i'w tynnu oddi-yno ond fod yna andros o sŵn efo nhw ac felly byddai'n well peidio rhoi twmpath yn ôl yn eu lle.

Soniodd AR fod ras gwn cenedlaethol Cymru yn dod i'r ardal am dridiau yn 2025. Gofynnodd am rodd gan y Cyngor Cymuned i gynorthwyo gyda chostau cynnal y digwyddiad. Awgrymodd AV eu bod yn rhoi cais i mewn i Gronfa Bro Cernyw.

Cafodd AR alwad ffôn gan Kevin Roberts sydd eisiau adnewyddu tŷ a rhoi estyniad bach ar y cefn ond yn cael trafferth cael caniatâd. Mae AR am fod yn ei gefnogi gyda hyn am ei fod o fewn canllawiau'r cyngor ac i fod yn gartref i lanc ifanc lleol. Roedd pawb yn cytuno y dylid fod yn annog datblygiadau o'r fath. Eglurodd AR mai polisi'r cyngor ar y funud yw tai fforddiadwy ond bod y cynghorwyr wedi bod yn pwyso am dai lleol a bydd hyn yn dod i rym yn 2025/26 sydd gobeithio am gynorthwyo gyda sefyllfa o'r fath yn y dyfodol.

Mynegodd nifer o Gynghorwyr eu pryder am Fwthyn y Wennol ble mae carafan statig newydd wedi cyrraedd yno ac adwy newydd wedi ei agor. Gofynnwyd hefyd i AR edrych i mewn i weld os yw'r safle wedi ei gofrestru i fod yn edrych ar ôl cŵn.

Gofynnodd AV beth oedd y diweddariad o ran y broblem dŵr ar y ffordd allan o Langernyw am Abergele sydd yn broblem ers blynyddoedd. Dywedodd AR eu bod yn cael trafferth cael mynediad i'r tir i wneud y gwaith oherwydd diffyg caniatâd gan y tirfeddiannwr.

**8 MATERION ARIANNOL**
**8.1** Derbyniwyd llythyr gan Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy yn gofyn am gyfraniad i helpu gyda chostau cynnal yr Eisteddfod eleni - cytunwyd i gyfrannu £30.
**8.2** Dal heb dderbyn taliad llwybrau yn ôl gan y Cyngor Sir er siarad ar y ffôn, ebostio nifer o weithiau a chynnwys AR - bydd AR yn dilyn hyn i fyny eto.
**8.3** CWG wedi bod i'r swyddfa i weld Iona Williams ac mae wedi gaddo ei bod am hawlio'r TAW yn ôl. Mae'n tynnu at ddiwedd y flwyddyn ariannol felly rhaid ei gael erbyn diwedd mis Mawrth.

**9 GOHEBIAETH**
**9.1** Cynllun Chwarae Allan 2024 - penderfynwyd i beidio bod yn rhan ohono eleni.

**9.2** Portread rhad ac am ddim o'i Fawrhydi'r Brenin ar gyfer Cynghorau Cymuned, Tref a Dinas yng Nghymru - penderfynwyd i beidio ei archebu.

**9.3** Baner heddwch D-Day 80 - penderfynwyd i beidio ei archebu.

**9.4** Archwilio Cymru - wedi derbyn yn gofyn am hysbysiad ysgrifenedig gan yr aelodau eu bod wedi penderfynu peidio derbyn taliad lwfans ac yna cyhoeddi'r rhestr o aelodau a'i gyflwyno i'r IRPW.

Mae'r canlynol wedi eu gyrru i bob cynghorydd ar e-bost er gwybodaeth:
**9.5** Digwyddiad ar y cyd Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru – Dydd Iau 7 Mawrth 2024 o 10.00am tan 2.30pm (o bell) - DR am fynychu

**9.6** Ymgynghoriad ar Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol - holiadur angen ei lenwi erbyn Mawrth 21ain Anogwyd pob un cynghorydd i'w lenwi gan fod yn bryder y bydd yn rhaid i ddisgyblion dalu i fynychu ysgol Gymraeg pe bai ysgol Saesneg yw'r agosaf atynt.

**9.7** Sgyrsiau Iechyd Lleol 2024

**9.8** Nodi Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig - y dyddiad cau yw Mai $10^{fed}$ 2024. Penderfynwyd ei roi ar agenda'r mis nesaf i'w drafod eto.

**9.9** Cyfarfod y Pethau Bychain - Digwyddiad nesaf yw Mawrth $19^{eg}$ ac $20^{fed}$ a bydd DR yn mynychu.

**9.10** Coedwig Genedlaethol i Gymru - grant o rhwng £10,000 a £40,000 ar gael i blannu coed. Awgrymodd DR o gwmpas y cae pob tywydd ond mae AR yn edrych i mewn i berchnogaeth yr ardal.

**10 BILIAU**
**10.1** Hysbyseb swydd yn rhifyn Ionawr 2023 y Gadlas, bil dyddiedig 01.04.23 - £8
**10.2** Bil cyfieithu mis Ionawr Enlli - £95
**10.3** Bil gwaith ar lwybr Hafodunos gan J.K & E. Roberts - £570 (£95 o T.A.W i'w hawlio yn ôl)
**10.4** Bil gwaith ym mynwent Llangernyw gan J.K & E. Roberts - £2235.60 (£372.60 o T.A.W i'w hawlio yn ôl) - Gwaith angenrheidiol Iechyd a Diogelwch.

Penderfynwyd i dalu'r uchod i gyd.

**11 MATERION LLEOL**
**MD -**wedi rhoi cloeau newydd ar yr hysbysfwrdd. JR am lanhau'r gwydr.
**DR** - twbyn blodau yn dal dŵr, MD am ei glirio. Wedi prynu blodau ei hun i roi ynddo.
**JR** - Merched y Wawr yn fodlon adeiladu gwestai trychfilod gyda'r ysgol ond yn aros i glywed gan yr ysgol ble fydd y lleoliad.
**AV** - Bydd y coed bach sydd i'w plannu yn y fynwent yn cyrraedd yn fuan a gobeithir y gellir cael cymorth pawb i'w blannu.

**12 CYFARFOD NESAF**
Mawrth $27^{ain}$ 2024 yn Festri Pandy Tudur.
Cyfarfod yn dod i ben am 21:25 .
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.